

Am lefelau staff nyrsio

Beth mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei feddwl imi?



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o **'Beth mae Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 yn ei olygu imi fel claf ar ward Feddygol neu Lawfeddygol Dwys i Oedolion? – Cwestiynau Cyffredin'** GIG Cymru.

Ionawr 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w deall a'u darllen



Efallai y byddwch angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n eu hadnabod i'ch helpu chi.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni** mae hyn yn meddwl **GIG Cymru**.



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Beth mae lefelau staff nyrsio yn ei feddwl?



Lefelau staff nyrsio ydy'r nifer o nyrsus sydd eu hangen i edrych ar ôl cleifion yn gywir ac yn ddiogel..



Efallai y byddwch yn gweld staff gofal iechyd eraill yn gweithio yn y wardiau Er enghraifft, ffisiotherapyddion sydd yn helpu pobl i symud o gwmpas.

Beth ydy Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016?



Daeth y **Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016** yn gyfraith yng Nghymru ym mis Mawrth 2016.



Mae'n meddwl bod **rhaid** i fyrddau iechyd wneud yn siŵr bod yna ddigon o nyrsus mewn wardiau ysbytai i edrych ar ôl cleifion yn ddiogel.

Sut mae'r lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward yn cael ei benderfynu?



Efallai bod lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward yn wahanol. Mae'n dibynnu ar nifer y cleifion ym mhob ward.



Mae hefyd yn dibynnu ar anghenion y cleifion. Er enghaifft, pa fath o ofal nyrsio maen nhw ei angen.

Er mwyn ein helpu ni i benderfynu faint o nyrsus sydd eu hangen ar gyfer pob ward, rydyn ni'n edrych ar 3 peth:



- beth mae'r nyrsus yn ei feddwl
- pa mor sâl ydy'r cleifion a faint o ofal maen nhw ei angen
- pa mor dda a diogel ydy'r gofal ym mhob ward.

Pwy sydd yn penderfynu beth ydy lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward?



Y Cyfarwyddwr/wraig Gweithredol Nyrsio sydd yn edrych ar ôl y lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward.



Maen nhw'n siarad gyda'r tîm nyrsio ym mhob ward cyn gwneud penderfyniad.

Pa mor aml fydd rhywun yn edrych ar y lefelau staff nyrsio?

Fe ddylid edrych ar y lefelau staff nyrsio ar gyfer pob ward:



- pob **6 mis**.



- pan mae rhywbeth yn newid yn y ward. Er enghraifft os ydy'r nifer o welyau sydd yn cael eu defnyddio yn y ward yn newid.
- os ydy'r tîm nyrsio yn meddwl bod angen edrych arno eto am rhyw reswm.



Sut fydd wardiau yn gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw'r lefelau staff nyrsio cywir?



Fe fydd y **nyrs mewn gofal** yn gwneud cynllun staffio yn ôl y nifer o staff nyrsio sydd angen bod ar y ward.



Os nad oes digon o nyrsus, fe fydd y nyrs mewn gofal yn siarad gyda'r **uwch nyrs**. Efallai bydd rhaid iddyn nhw dalu i nyrsus ychwanegol weithio yn y ward i wneud yn siŵr bod ganddyn nhw ddigon o nyrsus.



Weithiau mae'r cynllun staff yn gallu cael ei newid oherwydd bod anghenion y cleifion wedi newid. Y fîm nyrsio sydd yn penderfynu os ydy hyn yn digwydd.

Sut yw i'n gallu dysgu rhagor?

Os oes gennych gwestiynau am y lefelau staff nyrsio ar y ward yma, siaradwch os gwelwch yn dda gyda:

- Rheolwr/wraig y ward
- Prif Nyrs neu'r
- Nyrs mewn Gofal.

